

Adfyfyr

Yn anffodus, nid oeddwn yn gallu gwneud y sesiwn micro-addysgu yn y brifysgol ac roeddwn yn bwriadu cwblhau'r elfen fideo o'r asesiad ar fy ail leoliad.

Rwyf wedi creu tasg drawsgwricwlaidd i ddatblygu mathemateg ac iaith. Cynlluniais i wers Fathemateg ag elfen gref o iaith ynddi – sgiliau darllen a deall a threigladau. Defnyddiais fy ngwybodaeth a gefais yn y profiad hwn i greu'r wers hon. Mae'r athro dosbarth yn drilio iaith gyda'r plant bob dydd a mae lefel iaith y plant o safon uchel. O'r cychwyn, roedd herio a gwahaniaethu'n briodol i herio pob disgybl yn y dosbarth. Gwelwyd pum lefel o wahaniaethu mewn y gwers mathemateg yma. Sylweddolais er mor gryf oedd un bachgen yn ei waith rhif, y byddai gosod problemau ffracisynau i herio'r sgiliau darllen gan gynnwys yr angen i gywiro gwallau treigladau yn her bellach iddo.

Maent yn gyfarwydd â gallu ateb cwestiynau yn gyflym ac nid ydynt wedi arfer gorfod darllen i ddod o hyd i'r wybodaeth. Felly, er nad oedd y fathemateg ei hun - lefel y cwestiynau yn heriol, a'r Gymraeg ei hun yn heriol, roedd y cysyniad o orfod gwneud y ddau yn heriol.

Aeth y wers hon yn dda iawn. Roedd y plant i gyd yn gallu cael mynediad at y gwaith ac roedd pob unigolyn yn cael ei herio yn y dasg hon. Gwelodd y plant MAT fod y dasg hon yn heriol. Yn enwedig yr unigolyn sy'n alluog iawn mewn mathemateg. Fodd bynnag, wrth ddefnyddio damcaniaeth Viscott (2003) o barthau dysgu. Roedd yn amlwg bod yr unigolyn hwn yn mynd i lefel uwch o'i barth dysgu, nad oedd bellach yn barth cyfforddus.

Wrth werthuso'r wers hon, sylweddolais fod angen mwy o strwythur i'r dasg ei hun. Er enghraifft, yn y wers hon rhoddais y nod a'r amcan a'r meini prawf llwyddiant i'r plant a dechreuodd y dasg. Fodd bynnag, teimlais y byddai mwy o strwythur wedi rhoi mwy o eglurder i'r plant. Felly, pan oeddwn yn cynllunio gwers debyg cyflwyniais strwythur lle'r oedd y plant yn cywiro'r camgymeriadau iaith yn gyntaf ac wedyn yn mynd ymlaen i ateb y cwestiynau mathemategol. Mae'r plant wedi gallu gweithredu ystod o wybodaeth flaenorol, o adio syml i dynnu, rhannu a lluosu. Roedd yn rhaid iddynt hefyd drosi rhifau o ffurf geiriau i ffurf rhif. Roedd y wers ffracsiwn hon yn gysyniad newydd iddynt eleni a gweithiodd y plant yn galed iawn i ateb y cwestiynau.

Ers dechrau fy ngyrfa academiaidd, rwyf wedi dysgu defnyddio fy ngallu i sgwrsio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn modd academiaidd. Fodd bynnag, fy mhrofiad i ar y cwrs hwn sydd wedi fy ngalluogi i wella fy ndefnydd a'm dealltwriaeth o'r iaith. Yn ystod y lleoliad hwn, fe wnes i ddefnyddio fy amser er mwyn cael cymaint o adborth, gwybodaeth ac ymarfer â phosibl. Un agwedd yn benodol oedd yr iaith Gymraeg. Defnyddiais y cyfle hwn i well fy nealltwriaeth ac i wella fy ngallu.

Nid oes cywilydd arnaf gyfaddef nad oeddwn yn llwyr ddeall treigladau ar lafar-Doeddwn i ddim yn gallu clywed y gwahaniaeth rhwng y synau cychwynnol, os oedd rhywbeth yn wrywaidd neu'n fenywaidd ac yn aml mi oeddwn yn gam-dreiglo. Fodd bynnag, mae'r lleoliad hwn wedi dysgu cymaint i mi am yr iaith ac rwy'n falch o ddweud bod gen i barch newydd ac rwyf eisiau datblygu fy iaith.

Yn ystod ail bloc fy lleoliad cyntaf cefais fy lleoli gydag athro sy'n wybodus iawn yn yr iaith Gymraeg a ddefnyddiais y cyfle hwn i ddysgu am nifer o agweddau ar addysgu ac yn benodol y Gymraeg. Defnyddiais fy nhyddlyfr (gweler Atodiadau) i gadw gofnod ar wahanol batrymau iaith, geiriau a rheolau. Fe wnes i eu nodi yn fy llyfr gyda beiro goch i wahaniaethu oddi wrth y nodiadau a fwriedid ar gyfer y llyfr. Bu'r athro dosbarth yn drilio patrymau iaith gyda'r plant bob bore wrth gofrestru, roedd hyn yn gyfle gwych i mi arsylwi a chymryd nodiadau hefyd. Byddai'r athro dosbarth yn aml yn trafod gwahanol strategaethau gyda'r plant ac yn esbonio 'pam' mae rhai rheolau ar waith. Defnyddiais gyfleoedd hefyd i ofyn cwestiynau i'r athro dosbarth am yr iaith a chyn i mi ofyn o leiaf un cwestiwn y dydd. Er enghraifft, 'sut ydyn ni'n gwybod a oes angen dau n ai peidio?'. Bu'r athro dosbarth a minnau yn trafod hyn, a rhannodd strategaeth er mwyn penderfynu a yw ei 2 'n' neu 1. Mae hon yn strategaeth nad wyf erioed wedi clywed amdani o'r blaen ac un yr wyf yn parhau i'w defnyddio ers hynny. Mae hwn yn un o nifer o strategaethau ac awgrymiadau yr wyf wedi'u dysgu ers bod ar leoliad. Rwy'n llawer mwy hyderus wrth siarad Cymraeg ers y lleoliad hwn. Roeddwn i'n teimlo fy hyder yn tyfu wrth i mi fod ar leoliad ac roedd hyn yn fy ngalluogi i gywiro gwallau ieithyddol y plant (rhywbeth yr oeddwn yn teimlo nad oeddwn yn gallu ei wneud ar ddechrau'r bloc). Gallaf glywed treigladau'n awr, ac yr wyf yn gallu fy nghywiro fy hun. Er enghraifft, pan ddechreuais fy ail bloc byddai'r athro dosbarth yn rhoi targedau iaith i mi bob dydd. Am ryw reswm, ni allwn i glywed treigladau. Fodd bynnag, wrth i'm hyder a'm dealltwriaeth dyfu, roeddwn yn gallu fy nghywiro fy hun wrth siarad. Byddwn yn dweud rhywbeth fel 'heb gorffen' yn aml ac yn cywiro fy hun yn gyflym ac yn dweud "heb offen" Nid oeddwn yn gallu gwneud hyn cyn y lleoliad hwn.

Rwyf wedi dysgu llawer iawn o wybodaeth addysgu am fy lleoliad cyntaf, gwybodaeth y byddaf yn parhau i'w defnyddio, ei hymarfer a'i datblygu yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddaf am byth yn ddiolchgar am y cyfle yr wyf wedi'i gael i ddysgu am y Gymraeg. Rwyf bob amser wedi bod yn falch fy mod yn gallu siarad Cymraeg ond erbyn hyn mae gennyf barch newydd i'r iaith a hoffwn barhau i ddatblygu fy ngwybodaeth o'r iaith gyda fy hyder newydd.

Atodiadau

Cynllun gwers y gwers yma



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales



Cynllun Gwers Cam 1

Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers

Darpar Athro	Megan Llewelyn	Dosbarth:	Blwyddyn 6
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Mathemateg a Rhifedd	Dyddiad:	27/01/2020
Ffocws Gwers:	I gyfrifo ffracsiwn o rif gan ddefnyddio'r enwadur a'r rhifiadur yn gywir		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Mathemateg Llinynnau - Defnyddio sgiliau rhif Elfennau - Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb Sgil - defnyddio'r dealltwriaeth o gywerthoedd ffracsiynau, degolion a chanrannau syml e.e. canfod 25% o 60cm a gwybod bod hyn yn avfwerth â ¼ o 60cm		
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	laith, Llythrennedd a chyfathrebu dangos gafael ar gystrawen naturiol y Gymraeg gan ddechrau saernio'u hiaith a meithrin cywirdeb wrth ysgrifennu, e.e. defnyddio amrywiaeth gynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddegol cywir, rhedeg berfau ac arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau		
Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)			
Gwahaniaethu:- Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am, ynghyd â dealltwriaeth a phrofiad o, ddisgwyliadau uchel ac arferion effeithiol i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr, waeth beth fo'u gwahanol anghenion Pedwar diben i ddysgwyr:- Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am anghenion pob dysgwr, a dealltwriaeth o'r anghenion hynny, wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. Hefyd, wrt h wneud hyn, mae'n sicrhau mai'r pedwar diben sy'n gvrro profiadau dysgwyr. Cymryd cyfrifoldeb personol:- Mae'r athro'n arddangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol, gan ddatblygu c ydberthnasau cadarnhaol gyda dysgwyr, rhieni/ gofalwyr a chydweithwyr, sy'n dan			

gos ymrwymiad personol i'r egwyddorion sylfaenol, sef tegwch a gwneud y mwyaf o botensial pob dysgwr.

Sgiliau Cymraeg:-

Ceir ymrwymiad i ddatblygu sgiliau personol gam wrth gam, o ran defnyddio'r Gymraeg.

Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy):

Bydd disgyblion yn dysgu i wneud y canlynol:

Cyfrif ffracsiwn o rif gan ddefnyddio'r enwadur a'r rhifiadur yn gywir.

- Adnabod rhifiadur
- Adnabod enwadur
- Symleiddio ffracsiynau
- Cywiro gramadeg.

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)

- 1) Rhannu gyda'r enwadur
- 2) Lluosi gyda'r rhifiadur
- 3) Cywirwch y gwallau gramadegol yn y testun - TLI (MAT)
- 4) Cywirwch y gwallau gramadegol yn y testun (MAT)

Asesu Dysgu'r Disgyblion

Tystiolaeth

(Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)

Asesu mewnbwn ar lafar.

Asesu gwaith ysgrifennedig

Asesu gwaith ymarferol (trefnu losin)

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	- Tablau er mwyn twymo - Gofyn ‘Beth yw ffraciwn?’ - Dangos PowerPoint rwyf wedi creu. - Trafod gwahanol ffraciynau. - Drilio gerfa – rhifiadur ac enwadur. - Gofyn i’r plant ‘pa wyboaeth blaenorol sydd mynd i ei helou ni gyda ffraciynau?’ – Y gobaith yw bod pawb yn sylweddoli, pwysigrwydd tablau ac yn ddefnyddio dealltwriaeth blaenorol i helpu. Pawb i ateb y cwestiynnau ar y bwrdd gwyn.	Defnyddio bodiau i fyny ac i lawr i ddangos dealltwriaeth.	PowerPoint Bodiau

	Egluro a thrafod y Nod gan fynd dros y Meini Prawf Llwyddiant. Esbonio i Gallu Uwch & MAT i rhannu y gwaith i ddau tasg. Cywrio iaith gyntaf ac wedyn ateb cwestiynnau mathemateg.		
Addysgu a Dysgu Craidd	Gallu Uwch a MAT – Problemau geiriol heriol a ch yfrif ffraciynau. Canolig – Cyfrif ffraciynau o rifau. Gallu Is (2) – Cyfrif ffraciynau o rifau dau ddigid ac ychydig o rifau tri digid.	Defnyddio bodiau i fyny ac i lawr i ddangos dealltwriaeth.	
Sesiwn Gloi	Dosbarthwch y losin ar eich byrddau i ddangos y ffraciynau canlynol. Defnyddiwch lpad i gofnodi’ch gwaith <u>COFIWCH !!</u> Rhannu - rhaid i bawb gael tro i greu'r ffraciynau.	Asesu dealltwriaeth gan arsylwi y plant yn dosbarthu losin.	Losin lpad

Cynllun Gwers – Cam 1

Gwerthuso'r Profiad Dysgu

(cynhwyswch gyfeiriadau at SAC)



Gwerthuso'r hyn y mae Disgyblion yn ei Ddysgu	
Tystiolaeth o Ddysgu (gan gynnwys agwedd at ddysgu dros amser)	Roedd y dase hon yn heriol i'r plant, yn enwedig y plant MAT. Maent yn gyfarwydd â gallu ateb cwestiynau yn gyflym ac nid ydynt wedi arfer gorfod darllen i ddod o hyd i'r wybodaeth. Felly, er nad oedd y fathemateg ei hun - lefel y cwestiynau yn heriol, a'r Gymraeg ei hun yn heriol, roedd y cysyniad o orfod gwneud y ddau yn heriol. Mae un plentyn yn benodol wedi arfer â chwblhau gwaith sydd wedi'i osod ar gyfer blwyddyn 8 / blwyddyn 9. Roeddwn i'n gwybod y byddai'n cael y dase hon yn heriol felly gofynnais i Mr James a allai'r plentyn hwnnw wneud y gwaith hwn hefyd a chytunodd yn llwyr. Mae'r plant wedi gallu gweithredu ystod o wybodaeth flaenorol o adio symli i dynnu, rhannu a lluosu. Roedd yn rhaid iddynt hefyd drosi rhifau o ffurf geiriau i ffurf rhif. Roedd y wers ffrasiwn hon yn gysyniad newydd iddynt eleni a gweithiodd y plant yn galed iawn i ateb y cwestiynau.
Y Camau Nesaf ar gyfer Cynnydd	Byddaf yn aileddychu ar y dase hon yfory. Byddaf yn cadw'r lefel wahaniaethol i 5, ac yn creu set newydd o gwestiynau. Byddaf yn parhau gyda'r un sgil a'r un lefel heriol er mwyn i'r plant weithredu eu gwybodaeth Gymraeg a mathemategol o fewn yr un dase.

Dadansoddiad Adfyfyriol o Addysgu a Strategaethau ar gyfer Datblygiad – gan gynnwys cyfiawnhad/rhesymwaith dewisiadau pedagogaidd	
Tystiolaeth o'm Harfer Effeithiol	Rwyf wedi creu tasg drawsgricwlaidd er mwyn datblygu mathemateg ac iaith. Defnyddiais fy ngwybodaeth yr wyf wedi'i hennill yn y PAP hwn er mwyn creu'r wers hon. Rwyf wedi arsylwi Mr James yn drilio iaith gyda'r plant yn ddwyddiol. Mae lefel iaith y plant o safon uchel. Yn y lleoliad hwn rydw i wedi dysgu llawer gan Mr James. Rwy'n gwybod fy mod i'n teimlo'n gyffwrddus i wiro'r plant â'u hiaith - rhywbeth nad oeddwn i erioed yn hollol gyffwrddus ag ef o'r blaen. Ni allwn ddychmygu gorfod ysgrifennu darn o destun fel y gwnes i cyn y bloc hwn. Ac ni fyddai wedi bod unrhyw le bron yn gwir. Fodd bynnag, o bopeth a ddysgais gyda Mr James, roeddwn yn gallu creu a gweithredu safon dda o iaith yn y darn hwnnw o destun. Trwy ddefnyddio gwybodaeth flaenorol y plant rydw i'n defnyddio'r dull dargludol o ddysgu. Trwy addasu'r wers yfory bydd hyn hefyd yn dangos y dull adeiladol trwy addasu deunydd neu weithgaredd (Copple & Bredekamp, 2009).
Meysydd ar gyfer fy Natblygiad	Yfory, byddaf yn sicrhau bod y plant yn dewis naill ai'r iaith neu'r agwedd fathemateg yn gyntaf i'w chwblhau ac yna'n cwblhau'r llall. Rwy'n teimlo heddiw, roedd y plant wedi eu gorlethu â'r gwahanol elfennau. Byddaf yn sicrhau esbonio hynny ar ddechrau fy newers yfory.
Targedau Personol ar gyfer Cynnydd	

Taflen

A

Rhifedd Rhyfeddol Rhian

Cymerodd 360 eiliad i Rhian gyrraedd y siop lleol. Rhedodd fel y gwynt am $\frac{1}{3}$ o'r amser, a cerddodd yn sionc am gweddill y daith. Potel gyda pum cant ml o ddŵr oedd ganddi. Yfodd 250ml i dori ei syched, sarnodd ddau ddegfed ar ôl tori ei syched, a cadwodd y gweddill am y daith adref.

Am y 1,200 eiliad nesaf roedd Rhian wrth ei bodd yn chwilota trwy'r un cylchgrawn ar bymtheg.

Llwyddodd i cyfyngu y chwilio i dau wythfed o'r cylchgronau. Mae pris pob cylchgrawn yr un peth. Maent yn costio un bunt wyth deg yr un. Cerddodd i blaen y siop er mwyn dewis losin a talu. Gwelodd 480 o losin ar cownter llydan Roedd traean o'r losin wedi eu gorchuddio mewn siwgr a'r gweddill yn gymysgedd gyfartal o losin siocled a losin jeli. Prynodd $\frac{1}{12}$ o'r losin. Cyfanswm y siopa oedd 960c. Gwariodd chwech wythfed ar cylchgronau a $\frac{2}{8}$ ar losin.

Wedi cyrraedd gartref, bwyttodd hanner o'i losin a chyfri'r newid. Defnyddiodd Rhian ei harian poced i fynd i'r siop. Gwariodd dri chwarter o'i harian poced.

1. Pa mor hir cymerodd i gyrraedd y siop? (munundau)

2. Pa mor hir oedd hi'n:

a) Rhedeg?

b) Cerdded?

3. Faint o ddŵr:

a) yfodd hi? (fel ffracsiwn)

b) sarnodd hi?

c) oedd ar ôl yn y botel?

4. Pa mor hir oedd hi'n chwilota?

5. Sawl cylchgrawn a brynwyd?

6. Faint o losin:

a) Siwgr sydd?

b) Siocled a jeli sydd?

7. Faint o losin prynodd?

8. Faint o losin fwyttodd Rhian?

9. Faint:

a) oedd ei harian poced i ddechrau?

b) gwariodd?

c) o arian sydd ar ôl?

Rhifedd Rhyfeddol Rhiannon

Cymerodd 480 eiliad i Rhiannon gyrraedd y siop leol. Rhedodd fel y gwynt trwy'r parc fawr am $\frac{1}{8}$ o'r amser, a cherdodd yn sionc trwy'r cwm gul am weddill y daith. Potel gyda 200 ml o ddŵr oedd ganddi. Yfodd tri chwarter i dorri ei syched, sarnodd dau ddegfed ar ôl torri ei syched, a chadwodd y gweddill am y daith adref.

Am y 300 eiliad nesaf roedd Rhiannon wrth ei bodd yn chwilota trwy'r pedair cylchgrawn ar ugain. Llwyddodd i gyfyngu y chwilio i ddau chweched o'r cyclgronau. Mae pris pob cylchgrawn yr un peth. Maent yn costio un bunt ac ugain yr un. Cerddodd i flaen y siop brysur er mwyn dewis losin a thalu am ei siopa. Gwelodd 270 o losin ar gownter lydan. Roedd traean o'r losin wedi eu gorchuddio mewn siwgr a'r gweddill yn gymysgedd gyfartal o losin siocled a losin jeli. Prynodd $\frac{1}{9}$ o'r losin. Cyfanswm y siopa oedd 900c. Wedi cyrraedd gartref, bwydodd hanner o'i losin blasus a chyfri'r newid. Defnyddiodd Rhiannon ei harian poced i fynd i'r siop. Gwariodd dri chweched o'i harian poced.

- | | |
|--|---|
| <p>1. Pa mor hir cymerodd i gyrraedd y siop? (munundau)</p> | <p>5. Faint o losin:
a) Siwgr sydd?</p> |
| <p>2. Pa mor hir oedd hi'n:
a) Rhedeg?
b) Cerdded?</p> | <p>b) Siocled a jeli sydd?</p> |
| <p>3. Faint o ddŵr:
a) yfodd hi? (fel ffracsiwn)
b) oedd ar ôl yn y botel?</p> | <p>6. Faint o losin a brynwyd?</p> |
| <p>4. Sawl cylchgrawn a brynwyd?</p> | <p>7. Faint o losin fwydodd Rhian?</p> |
| | <p>8. Faint o arian poced oedd ganddi i ddechrau?</p> |


HER

Mae jar losin yn cynnwys cymysgedd o losin wen, losin werdd a losin melen. Mae 6 gwaith cymaint o losin wen ag o losin werdd. A mae dwy waith cymaint o losin werdd ag o losin melen. Mae 540 o losin yn y jar.

- 1) Faint o losin wen sydd?
- 2) Faint o losin werdd sydd?
- 3) Faint o losin melen sydd?

Atebwch 'Rhifedd Rhyfeddol Rhian'.

Nodiau Iaith (Dydd Lyfyr)



ceirbyddau yn y cymraeg. Chwyd
amryw gysbawen gyfeirio gawdoli
'yn gaeth i...'

ard chwyd y canlynol

y cynulleidfia (e.b) y gwybodaeth (e.b)

i arghwori o belfenii

y destun e.g (y testun)

T.M

Rhaid i ni gysgu x 4

* badduch

bod yn ared - Arger dathlwyd
defnyddio yson o'r fef orchymen

... socchawr

Or aychuyn cyntaf gwrthododd Megan
i am o ddereddu yr mylthnos deliethol
gan fod yn fwy cadarn gyda'r disgyliaid
loosodol ddisgyliaid ddi o ran gwrth
de gwrthododd ddereddu bre'ira.
Cyngor amsym gystawen gywir
e.e

'i gwr' 'a thosi'
'i gwrthoi' Der idwn.

Ail gwrthododd gyda'r M.P.LL yn ystod
y werg Fathymateg, am am, fod rhai

Cymraeg (coleg)

Enwau

Tasg 1
Rhowch 'eg' neu 'eb' wrth ochr pob un o'r enwau hyn.

eb cadair	eg llais	eb papur	eb drama	calon
eg myfyriwr	patrwm	teulu	cwrs	eg teledu
eb ysgrifenyddes	eb coleg	rhaff	eb dinas	eb coeden

Nawr, rhowch y gair am 3 o flaen pob un. Treiglchw os oes angen.

Tasg 2
Rhowch yr enwau isod yn y galofn gywir.
angladd, coes, gwasanaeth, gweithgaredd, plentyn, ystafell, cusan, afal, penderfyniad, perllinnell, rhestr, trafnidiaeth.

Enw gwrywaidd	Enw benywaidd	Enw gwrywaidd/benywaidd
gweithgaredd plentyn rhestr angladd	coes gwasanaeth ystafell trafnidiaeth linnell	angladd cusan

Nawr, rhowch 'y' neu 'yn' o flaen pob un.

Tasg 3
Ailw gan y geiriau hyn ddau luosog. Beth ydyn nhw? Wedyn ysgrifennwch frawddegau brawddeg i gyd i ddangos yn glir eich bod yn deall yr ystyron.
* cyngor * cais * pryd * nodyn * gwaith * llwyth

Tasg 4
Cywirwch

1. Roedd hi'n awyddus iawn i ddatrys y ddingelwch.
2. Derbyniodd yr adran adnoddau dynol ddeg o geisiau am y swydd.
3. Mae'r restr anrhegion priodas ar y we.
4. Bydd y ferched yn cwyno os byddai'n hwy.
5. Faint o'r bechgyn fydd yn mynd i'r coleg?
6. Teithiodd y llywydd i'r gynhadledd ar y drên.
7. Doedd rwydwaith y coleg ddim yn gweithio'n iawn.
8. Rwyf i'n hwy. Beth yw'r newm?
9. Doedd ei henw hi ddim ar y taflen.
10. Mae e wedi ennill y cystadleuaeth.
11. Tair ceffyl fydd yn neidio yn y rownd derfynol.
12. Mae pymtheg dynion mewn tîm rygbi.

CSC

Ymarfer Adolygu Rhannau Ymadrodd

1. Rhowch luosog yr enwau hyn, e.e. ystyry > ystyrlai
 - i) arlywydd arlywydd
 - ii) disgybl disgyblion
 - iii) adran adranau
 - iv) dogfen dogfenau
 - v) pennfaeth pennfaethau
2. Rhowch unigol yr enwau hyn, e.e. arholadau > arholiad
 - i) rhieni rhieni
 - ii) plant plant
 - iii) ffeithiau fffeithiau
 - iv) pynciau pync
 - v) cynlluniau cynllun
3. Pa rannau ymadrodd sydd o dan sylw yma? e.e. lechyd = enw
 - i) apello ad arddoliaid
 - ii) coleg colleg
 - iii) addysgol addysgol (o'i a'i)
 - iv) daeth bu
 - v) ei lag gwasgoledd rhageu
 - vi) siarad hysgusedd hysguseu
 - vii) cysgu'n dawel anoddau
 - viii) ystyrlia ddwyieithog y ffordd

11. i neu u ?

BERFENW: gair sy'n enwi gweithgaredd
e.e. canu ysgrifennu rhedeg

☆ Os oes a yng nghanol berfenw mae i ar y diwedd:
colli torri pori

☆ Os oes a yng nghanol berfenw mae u ar y diwedd:
canu palu malu

☆ Os oes y neu w yng nghanol berfenw mae u ar y diwedd:
prynu tynnu pŵdu

☆ Os oes w ar ddiwedd berfenw mae i ar y diwedd:
sylwi berwi enwi

Heblaw am:
mynegi, rhegi, pesgi, geni, medi, peri,
mae pob berfenw ag e yn y canol yn gorffen ag u:
anrhegu rhestru methu

☆ Sylwch ar hyn:

rhestru = berfenw (gwneud rhestr)	rhestru = lluosog (mwy nag un rhestr)
cofrestru = berfenw (gwneud/cymryd cofrestr)	cofrestru = lluosog (mwy nag un cofrestr)

☆ **H:** cymhariaeth ... ond ... cymariaethau
cynghanedd ... ond ... cynganeddion/cynganeddu
anhawster ... ond ... anawsterau
Cofiwch sillafu 'er enghraifft' yn gywir!

☆ **ANSODDEIRIAU (geiriau disgrifio): (I / U / Y ?)**

- Gorffen gyda 'd' > y: swnllyd, drewllyd
- Gorffen gyda 's' > u: siaradus, cysurus (eithriad: melys)
- Gorffen gyda 'g' > i: caredig, diawledig

Cynlluniau Gwers



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales



Cynllun Gwers Cam 1

Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers

Darpar Athro	Megan Llewelyn	Dosbarth:	Derbyn
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Iaith, Llythrennedd & Chyfathrebu	Dyddiad:	18-22.11.2019
Ffocws Gwers:	I ysgrifennu "Mae _____ yn arbennig i mi"		
Cysylltiadau ystyrion â'r Cwricwlwm	Iaith, Llythrennedd & Chyfathrebu Llinyn: Ysgrifennu Elfennau – Trefnu syniadau a gwybodaeth Agweddau – Strwythur a threfn Sgîl – Cyfrannu i ffurf sydd wedi'i modelu gan yr athro/athrawes e.e drwy ysgrifennu ar y cyd.		
Cysylltiadau ystyrion â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Iaith, Llythrennedd & Chyfathrebu Llinyn: Ysgrifennu Elfennau – Ysgrifennu'n gywir Agweddau – Llawysgrifen, cystrawen, atalnodi, sillafu – gwhaniaeth rhwng llythrennau.		
Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)			

Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy):
Bydd disgyblion yn dysgu i wneud y canlynol:
- Mynegi beth sydd yn arbennig i nhw. - Copio ffurf sydd wedi ei modelu gan yr athro.

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
- Gallaf ffurfio beth sydd yn arbenning i mi. - Gallaf ffurfio brawddeg llawn	I ysgrifennu mewn ffurf priodol (tu fewn seren).



Cynllun Gwers Cam 1

Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers

Darpar Athro	Megan Llewelyn	Dosbarth:	Derbyn
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	laith, Llythrennedd & Chyfathrebu	Dyddiad:	18.11-22.11
Ffocws Gwers:	Tasg Ddarllen		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau Llinyn- Darllen Elfennau – Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth Agweddau – Darllen a Deall Seil – ail-ddweud storiâu cyfarwydd mewn ffordd syml, gan ddefnyddio lluniau i'w helpu. ADY & Is eu gallu – Cofio manylion stori neu destun drwy ateb cwestiynnau penagored neu ddefnyddio lluniau i'w helpu. Canolig - Ail-ddweud storiâu cyfarwydd mewn ffordd syml, gan ddefnyddio lluniau i'w helpu. MAT - Ail ddweud digwyddiadau o ddarn naratif yn y drefn gywir.		
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Datblygu hunan-ddelwedd gadarnhaol ac ymdeimlad o berthyn fel aelod o wahanol gymunedau, a deall eu Cymreictod eu hunain.		
Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)			
<i>Mae'r darpar athro'n arddangos gwybodaeth am, ynghyd â dealltwriaeth a phrofiad o, ddisgwyliadau uchel ac arferion effeithiol i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr, waeth beth fo'u gwahanol anghenion.</i> <i>Mae'r darpar athro'n arddangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol, gan ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol gyda ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a chydweithwyr, sy'n dangos ymrwymiad personol i'r egwyddorion sylfaenol, sef tegwch a gwneud y mwyaf o botensial pob dysgwr.</i>			

Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy):

Bydd disgyblion yn dysgu i wneud y canlynol:

ADY & Is eu gallu – defnyddio'r daflen waith gyda brawddegau a lluniau i ddiolli'r stori yn y drefn gywir

Canolig 2 – defnyddio'r daflen waith gyda brawddegau i lunio'r llun cyfatebol

Canolig 1 - I ddefnyddio'r daflen waith gyda lluniau yn unig ac mae'r plant yn ysgrifennu'r frawddeg gyfatebol

MAT – I ddefnyddio'r daflen waith wag i ysgrifennu'r brawddegau a thynnu'r lluniau.